ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Ebrill 2015

Ar Fawrth 13eg cafodd disgyblion yr ysgol gyfle i wisgo eu dillad hamdden neu unrhyw wisg ffansi , gyda pawb yn talu punt am y fraint. Cafodd y plant lawer o hwyl yn cefnogi ymgyrch Comic Relief a llwyddwyd i gasglu £434.71 at yr achos teilwng yma.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau mawr i Cari Davies sydd wedi cael ei dewis i fod yn aelod o dîm hoci dan 16oed Cymru. Bydd Cari yn teithio i'r Iseldiroedd i gynrychioli ein gwlad ar Ebrill 1af.

Llongyfarchiadau yr un mor wresog i Cassia Pike a Shannon Dukes ar gael eu dewis i gynrychioli tîm pêl droed dan 15 oed Cymru. Bydd y ddwy yn teithio i'r Alban i'r twrnament rhyngwladol yn ystod gwyliau'r Pasg.

Tîm pêl droed dan 15 oed

Llwyddodd tîm pêl droed merched dan 15 oed yr ysgol i guro merched Prestatyn o un gôl i ddim yn rownd gyn derfynol Cwpan Cymru. Bydd y tîm yn teithio i Aberystwyth ar Ebrill 15fed i chwarae'r gêm derfynol . Pob lwc genod !

Cyngerdd Rhanbarth

Cynhaliwyd cyngerdd rhanbarth Pwllheli, Botwnnog, Meirionnydd ac Eifionydd yn Ysgol Eifionydd nos Fawrth, Mawrth 18fed.Bu band Ysgol Eifionydd yn cyflwyno tri darn dan arweiniad Mr. John Glyn Jones, yn ogystal â chymryd rhan gydag aelodau eraill y rhanbarth ar ddiwedd y cyngerdd.

Ymweliad Technocamp

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant ar raglennu yn iaith Greenfoot. Cafodd disgyblion Blwyddyn 10 sy'n dilyn cwrs TGAU Cyfrifiadureg a Chlwb Cyfrifiadureg Blwyddyn 8 gyfle i ymarfer eu sgiliau rhaglennu gyda chymorth a chefnogaeth staff o Brifysgol Bangor.Bu'r sesiwn yn fuddiol dros ben i'r disgyblion.